

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar **nos Fawrth 10 Tachwedd 2020 am 7.00 o'r gloch**. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

---

## 1-11/20: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Peter Harlech Jones; Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams;  
Clerc – Dr Catrin Jones.

Croesawyd Dr Peter Harlech Jones i'w gyfarfod cyntaf – roedd wedi arwyddo ffurflen derbyn swydd.

## 2-11/20 Ymddiheuriadau:

Cyng. Alice Roberts;

## 3-11/20: Datgan diddordeb

## 4-11/20 Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Tref

### 1. Ethol Cadeirydd 2020/21

Etholwyd y Cyng. Robert Cadwalader i barhau yn Gadeirydd y Cyngor Tref.

### 2. Ethol Is-gadeirydd 2020/21

Etholwyd y Cyng. Sian Williams i barhau yn Is- gadeirydd y Cyngor Tref.

### 3. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog

Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog

### 4. Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol

Mabwysiadwyd y Rheolau Ariannol

### 5. Adolygu stocrestr o asedau'r Cyngor

Cadarnhawyd y stocrestr yn un cywir.

### 6. Cadarnhau Asesiad Risg y Cyngor

Derbyniwyd a chadarnhawyd yr Asesiad Risg ar gyfer 2020/21 . Bydd yr Asesiad Risg yn cael ei gyhoeddi ar safle We'r Cyngor.

7. Cadarnhau gwarant yswiriant

Cadarnhawyd y polisi yswiriant a oedd wedi'i adnewyddu o 1 Mehefin ar gyfer 2020/21 tan ddiwedd Mai 2021 . Roedd y polisi wedi'i warantu gan BHIB Ltd.

8. Ethol aelodau'r is-bwyllgorau

Etholwyd yr aelodau canlynol i is-bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2020/21

- Is –bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol  
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Robert T Price, Angela Hughes, Peter Harlech Jones, Phil Jones
- Is-bwyllgor Cynllunio ,Trafnidiaeth a Mwynderau  
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wayne Roberts, Phil Jones, Nan Davies Hughes Eirwyn Williams
- Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth  
Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ffion Gwyn, Alice Roberts, Nan Davies Hughes, Phil Jones a chadeiryddion yr Is-grwpiau cymunedol.

9. Ethol aelodau i gyrff allanol

- Criccieth yn ei Blodau  
Sian Williams gyda Phil Jones fel eilydd
- Un Llais Cymru  
Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – Clerc fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu
- Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Trefferthyr  
Sian Williams
- Neuadd Goffa  
Robert Cadwalader
- Cynrychiolydd Pwyllgor Mynwent Llanystumdwy  
Phil Jones

10. Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn 2020-21 a chyfarfod blynyddol 2021

Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn weddill y flwyddyn a chyfarfod blynyddol 2021, i'w cynnal am 7 yr hwyr -ac o dan yr amgylchiadau pandemic cyfarfodydd o bell gan ddefnyddio technoleg fideo;

15 Rhagfyr 2020

12 Ionawr 2021

9 Chwefror 2021

**5-11/20 Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Hydref 2020**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

**6-11/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)**

*Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau*

- Roedd hysbyseb llenwi sedd wag y Cyngor Tref wedi'i osod.

**7-11/20: Gohebiaeth**

1. Cyngor Gwynedd – Covid-19 – ymateb re biniau i'r dref

Dal dim ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd re y biniau i'r dref.

**Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth

2. Llythyr diolch gan aelod o'r cyhoedd – re Cynllun cymorth Covid-19 y Cyngor Tref

Llythyr o ddiolch wedi'i gylchredeg – roedd yn braf cael cydnabyddiaeth am y gwaith.

**Penderfyniad**

Diolch yn fawr iawn am y llythyr ac i'r Cyng. Nan a'r tîm am eu gwaith rhagorol.

3. Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth

Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cael cyfarfod gyda swyddog yr Heddlu a'r trigolion ar 21 Hydref. Roedd llythyr diolch ar ran y trigolion am drefnu'r cyfarfod wedi ei gylchredeg ac yn gofyn i'r Cyngor Tref pe bai'n bosib cysylltu ag adran berthnasol Cyngor Gwynedd er mwyn trefnu cyfarfod i drafod gosod arwyddion ataliol swyddogol ar y stryd, ac - os yn berthnasol - i drafod y camau y dylid eu cymryd pe bai modd i drigolion y stryd osod camera pwrpasol yno.

Nodwyd bod Swyddog yr Heddlu am gwrdd gyda Swyddog Cyngor Gwynedd diwedd yr wythnos hon - os bydd angen cyfarfod gyda thrigolion a Chyngor Gwynedd yn dilyn hyn, y Clerc i drefnu hyn.

**Penderfyniad**

Derbyn yr adroddiad a chytuno y dylid y Clerc drefnu cyfarfod yn ôl yr angen yn dilyn adroddiad yn ôl gan Swyddog yr Heddlu.

4. Ysgol Newydd Criccieth – Lay By A497 – ebost 29 Hydref 2020

- Derbyniwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd yn holi os oedd gan y Cyngor Tref wrthwynebiad i gau Layby yr A497 oherwydd rhesymau diogelwch a'r peryg o'i ddefnydd fel "drop off" o flaen yr adeilad ac wedyn ail ymuno a'r ffordd. -

*"Wrth drafod y cynllun mae defnydd y "layby" gan yr Ysgol wedi codi . Petai'r defnydd o'r ardal yma mae'n debygol iawn bydd yn ormod o demtasiwn i rieni stopio a gadel ei phlant i lawr, ac wrth adael bydd cerbydau yn croesi'r ffordd neu wneud "U turn". Gall hyn creu perygl o ddamweiniau ayyb.*

*O safbwynt diogelwch fydd yn well cael pawb fynd i mewn i'r safle'r lawr o ffordd gan ddefnyddio'r " drop off" o flaen yr adeilad ac wedyn ail ymuno ar ffordd.*

*Dwi wedi trafod gyda'r uned diogelwch traffig ac maen nhw'n cytuno a hyn ond nid oedd yn siŵr beth oedd pwrpas / statws yr ardal yma, o bosib oedd yn ddarn o'r ffordd wreiddiol.*

*Oes gan y Cyngor tref wrthwynebiad i gau'r ardal yma i ffwrdd gyda bolard neu orchuddio gyda phridd / tirlunio ayyb ?"*

- Hefyd nodwyd bod ymgynghoriad Statudol ar ysgol newydd yng Nghricieth

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda Phanel Adolygu Lleol i drafod opsiynau posib ar gyfer ysgol newydd yng Nghricieth, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod ar 13 Hydref 2020 i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle newydd, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

Roedd y cyfnod ymgynghori statudol yn rhedeg o 6 Tachwedd 2020 tan 1:00 y.h. ar 18 Rhagfyr 2020 ac wedi cael ei bostio ar Hwb Criccieth a Safle We'r Cyngor Tref.

### **Penderfyniad**

Cafwyd trafodaeth am y layby a chytunwyd y dylid ei gau oherwydd rhesymau diogelwch. Barn y Cyngor Tref yw y dylid oherwydd yr un rhesymau diogelwch a chonsyrn mawr am lefel y traffic a'r cyflymder yn yr ardal i ymestyn y cynllun i ddefnyddio'r lay by ar gyfer ail-gyflunio'r ardal ac i gael cylchfan/"roundabout". Roedd yn bwysig iawn gwneud y lle mor ddiogel â phosib gan nodi y byddai nifer yn cerdded i'r Ysgol yn ogystal â theithio iddo mewn ceir. Ym marn y Cyngor Tref, nid oed cau'r layby yn ddigonol ar gyfer sicrhau diogelwch y cyhoedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd y Cyngor Tref wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd at sefyllfa'r drafnidiaeth sy'n dod mewn i'r dref o gyfeiriad Pwllheli a gofyn am fesurau i leddfu cyflymder y traffic. O ganlyniad, roedd adroddiad gan Gyngor Gwynedd yn dilyn asesiad o'r sefyllfa a chyflymder y traffic wedi ei gyflwyno i Heddlu Gogledd. Roedd adleoli'r ysgol i safle'r A497 yn ei gwneud hi'n fwy pwysig byth i ail-gyflunio'r ardal ac i gael cylchfan/"roundabout".

Cytunwyd i drafod manylion yr ymgynghoriad yng nghyfarfod Mis Rhagfyr y Cyngor Tref.

5. Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn - Ymgynghoriad cyhoeddus Canllawiau Cynllunio - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Newydd defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu -e-bost 15 Hydref 2020.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i gylchredeg

### **Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth

6. Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant Tachwedd 2020

Roedd y cyrsiau wedi eu cylchredeg

### **Penderfyniad**

Aelodau i roi gwybod i'r Clerc os oeddynt am gofrestru.

7. Un Llais Cymru - Canlyniadau'r Arolwg ar Weithio o Bell

Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg. Nodwyd ei fod wedi cael ei gyflwyno fel tystiolaeth i Lywodraeth Cymru i asesu a fyddai unrhyw fudd i'r dyfodol mewn cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth i alluogi rhai elfennau o drefniadau cyfarfodydd o bell a gynhwyswyd yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 i barhau.

### **Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth

8. Swyddfa Archwilio Cymru – Trefniadau Archwilio ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y Dyfodol – 22 Hydref 2020

Roedd y ddogfen a oedd wedi ei gylchredeg yn rhoi manylion am drefniadau archwilio newydd fydd yn cychwyn yn 2020-21 sy'n cynnwys manylion rhaglen archwilio dair blynedd newydd er mwyn bodloni gofynion statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth ddarparu lefel ddigonol o sicrwydd archwilio am gost resymol i gynghorau. Bydd y trefniadau newydd yn dal i olygu cynnal trefniadau archwilio mewnol. Y prif newid yw y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys dull seiliedig ar drafodion yn y trefniant archwilio, gan ddefnyddio gweithdrefnau archwilio mwy cyfyngedig trwy drefn gylchynol dair blynedd ynghanol y trefniadau profi trafodion.

### **Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth

## 8-11/20 Ceisiadau cynllunio

1. C20/0639/35/DT Dymchwel Adeilad a chodi sied gardd ar yr un lleoliad –London House, High Street, Criccieth Gwynedd, LL52 ORN

### **Penderfyniad**

Danfon sylwadau. Roedd yn anffortunos iawn ac o gonsyrn bod angen i'r hen adeilad hynod hwn gael ei ddymchwel yn enwedig o gofio bod y Cyngor Tref, rhai blynyddoedd yn ôl wedi cefnogi cais cynllunio am addasiad/newid defnydd iddo. Byddai hyn wedi arbed adeilad hynod a hanesyddol yn y dref. Mae'r Cyngor Tref am gael esboniad beth oedd y rhesymau am wrthod y cais cynllunio blaenorol i addasu'r adeilad o gofio bod cais cynllunio i adeiladu nifer o dai newydd ar dir cyfagos iddo wedi bod yn llwyddiannus.

2. C20/0856/35/TC Shrimala Trust, Ynys Graianog, Ynys, Criccieth, LL52 ONT

### **Penderfyniad**

Dim sylwadau

3. C20/0840/35/LL Cais ar gyfer gosod 5 uned wyliau, gosod system trin carthffosiaeth a gwaith cysylltiol, Llwyn Mafon Isaf Criccieth, Golan, LL52 ORE

### **Penderfyniad**

Dim sylwadau

## 9-11/20: Safle We Newydd y Cyngor Tref

Roedd Delwedd wrthi'n paratoi safle We newydd - holwyd a oedd aelodau eisiau bod yn rhan o grŵp i ystyried yr opsiynau ar gyfer y safle newydd

### **Penderfyniad**

Aelodau i gysylltu gyda'r Clerc.

## 10-11/20 Cynllun Cymunedol

### **1. Prosiect Cymunedol Cae Crwn**

Nodwyd bod y cais wedi ei gyflwyno i'r Loteri ac roedd disgwyl clywed y canlyniad.

### **Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth

### **2. Map ar gyfer y dref**

Aros am ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd am ganiatâd gosod mapiau A1 wedi'u lamineiddio ar fyrddau yn y gwahanol leoliadau cytunwyd arnynt o amgylch y dref

#### **Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth.

### **3. Adeilad yr Hen Lyfrgell**

Roedd y Clerc wedi sgwennu at y cyfreithiwr yn cyfleu penderfyniad y Cyngor – cadarnhad ei fod wedi sgwennu i Gyngor Llanidan ac yn aros am ymateb.

#### **Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth

### **4. Arddangosfa Stryd Fawr a Chofio 2020**

Nodwyd bod y fideo ar gyfer y Cofio wedi'i gyhoeddi a'r arddangosfa ar gyfer y Stryd Fawr wedi ei ddadorchuddio ar gyfer Sul y Cofio Bydd yr arddangosfa ar gael tan y Nadolig. Roedd torchau gyda phabis coch gweu crochet ar gyfer siopau'r Stryd Fawr. Nid oedd gwasanaeth yn Neuadd Goffa eleni ond roedd biwglwr wedi chwarae'r Last Post o'r balconi ac yn hynod effeithiol. Roedd adborth da wedi bod yn barod i'r trefniadau - y Fantell o Flodau Cochion o babis wedi cael sylw mawr – i gynnwys 3,000 yn hoffi ar WalesOnline ac erthygl yn y Cambrian News -. Roedd darllediad ar Heno'r noson honno, a darn wedi mynd i'r Ffynnon a'r Clerc Magazine.

#### **Penderfyniad:**

Diolchwyd i'r criw fu'n paratoi, sef y Cadeirydd, Cyng. Ffion Gwyn, y Clerc, Pam Mayo a Rich Wilcock a nodwyd gwaith Ffion Gwyn a Rich Wilcock i wneud y fideo. Diolchwyd hefyd i Andrew Bradley am fenthyg ffenest y siop, i Lloyd Edwards am ffenest yr hen siop greffttau ac i Andrew Kime am ddefnydd o'r ffenest a'r lluniau ffantastig o'r Fantell.

### **5. Goleuadau Nadolig 2020**

Roedd y trydanwr wrthi'n paratoi ar gyfer troi'r goleuadau ymlaen ynghynt eleni er mwyn ymestyn cyfnod Croeso 'Dolig yn y dref a fyddai yn dra gwahanol eleni. Bydd fideo yn cael ei gymryd a'i rhoi ar facebook.

Daeth contractwyr ar ran Cyngor Gwynedd allan yn ddirybudd i docio'r coed ar y Maes a sylweddoli am y goleuadau Nadolig. Maent wedi tocio un goeden ond bydd rhaid tynnu'r goleuadau er mwyn iddyn nhw docio'r eucalyptus yn y Flwyddyn Newydd. Roedd y Clerc wedi gofyn i'r trydanwr am brisio cost tynnu'r goleuadau a'u cadw.

#### **Penderfyniad:**

Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith paratoi a'r cydlynu.

## **6. Amlinelliad Prosiect Cymunedol Newydd – Enwau, Chwedlau a Chan**

Roedd manylion am brosiect posib wedi cychredeg. Yn sgil y pandemic ac o ganlyniad i'r unigrwydd roedd cyfle i wneud rhywbeth dychmygus, adeiladol yn ein cymuned gyda'n talent leol er mwyn cynnal ein hysbryd cymunedol mewn adeg anodd iawn ac un sy'n debyg o barhau am gyfnod hir i'r dyfodol.

Roedd y prosiect cymunedol "Enwau, Chwedlau a Chan" a fyddai'n cael ei arwain gan artistiaid proffesiynol i weithio a phontio ar draws y cenedlaethau, a drwy hynny chyrraedd unigolion unig y gymuned mewn nifer o ffyrdd a fydd yn cynnwys y dechnoleg fodern (ee cartrefi henoed, grwpiau cymdeithasol) ond hefyd drwy unigolion/gofalwyr sy'n medru cysylltu wyneb i wyneb gydag ee aelodau eu teulu. Byddai'r prosiect yn rhedeg dros gyfnod o sawl mis i gychwyn cyn gynted â phosib.

Ffyrdd o Ariannu'r Prosiect:

Cyngor Tref i ariannu gwaith fideo, printio

Cais i gronfa'r Cyngor Tref yng ngofal Age Cymru Gwynedd a Môn am gostau artistiaid proffesiynol.

### **Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r prosiect a'r ffyrdd o ariannu nodwyd uchod. Y Clerc i wneud cais i Age Cymru Gwynedd a Môn.

### **11-11/20: Archwiliad Allanol 2019/20**

Dim ymateb hyd yma gan yr Archwilwyr Allanol-

### **Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth

### **12-11/20: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11**

Nodwyd bod y Clerc sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd yn dilyn y cyfarfod diwethaf i ddiolch am y gwaith diweddar i atgyweirio gatiâu ac i gynnig cyfarfod maes – nid oes ymateb wedi dod hyd yma.

### **Penderfyniad:**

Y Clerc i gysylltu eto i gynnig cyfarfod maes.

### **13-11/20: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth**

Roedd e-bost wedi ei dderbyn gan Swyddog Cyngor Gwynedd mewn ymateb i'r Cyng. Eirwyn Williams a oedd wedi ei hysbysebu am ddifrod pellach i'r grwynau yn dilyn gwyntoedd cryfion. O ganlyniad roedd Swyddog wedi bod allan i asesu'r sefyllfa. Roedd yn ymddiheuro



am yr oedi sydd wedi bod yn trefnu gwaith atgyweirio ar y grwynau, gan fod blaenoriaethau'r uned wedi bod yn ymgynwidiol o un wythnos i'r llall ac o ganlyniad roedd wedi bod yn anodd cadw fyny hefo'r gwaith. Er hynny roedd yn cadarnhau fod y dogfennau tendr bellach wedi ei gwblhau ac roedd yn hyderus y byddant wedi ei gyhoeddi i contractwyr lleol yn yr wythnos nesaf a'r gwaith wedi ei gychwyn yn fuan wedyn. Bydd y Swyddog yn ein hysbysebu o'r contractwr llwyddiannus a'r dyddiad cychwyn.

Derbyniwyd hefyd er gwybodaeth Strategaeth Rheoli Asesiad Risg Cenedlaethol erydi arfordirol a oedd wedi ei gylchredeg

**Penderfyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad gyda diolch

**14-11/20: Trafnidiaeth yng Nghriccieth**

Yn dilyn y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf i ofyn am gyfarfod maes gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Tref i drafod trafndiaeth yng Nghriccieth, roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd - nid oedd y swyddog am ddod i gyfarfod gyda chynrychiolaeth oherwydd y pandemic.

Nodwyd gyda chonsyrn bod y gwasanaeth bws Arriva o Bwllheli i Borthmadog a Blaenau Ffestiniog yn gorffen diwedd y mis a bod Cyngor Gwynedd yn trafod opsiynau ar gyfer y dyfodol.

**Penderfyniad:**

Y Clerc i sgwennu at y Swyddog i gynnig ei bod yn cwrdd gyda'r Cyng. Phil Jones.

**15-11/20: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref**

Roedd clawdd Llwybr rhif 1 wedi ei docio. Nodwyd bod problemau sbwriel yng nghyffiniau'r cwrs golff ger Dylans. Mi wnaeth y Cyng. Phil Jones gynnig mynd i lanhau'r ardal.

**Penderfyniad:**

Diolchwyd i'r Cyng. Phil Jones am ei gynnig i weithredu.

**16-11/20: Parcio yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd.

**17-11/20: Torri Coed yng Nghriccieth**

Roedd argymhellion y Cyngor Tref ar gyfer y Maes wedi eu cyflwyno i Swyddog Gwynedd – nid oedd ymateb wedi'i dderbyn eto.

Re anhawster i geir ar groesffordd yr Esplanade gyda Heol Porthmadog oherwydd tyfiant coed – aros am asesiad ac adroddiad Swyddog Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd yr angen i dorri lawr y bambw yn pen draw y pitch and putt tu draw i Dylan's ac mi wnaeth y Cyng. Peter Harlech gynnig i gysylltu gyda unigolyn i ymgymryd â'r gwaith.

**Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth. Diolchwyd i'r Cyng. Peter Harlech Jones am weithredu ynglŷn â'r bambw – bydd adroddiad i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

**18-11/20 Meinciau Tref Criccieth**

Dim byd i'w adrodd

**19-11/20 Derbyniadau**

Dim

**20-11/20: Taliadau**

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE)	£16.30 (siec 101425)
• Cyflog Clerc (Hydref)	£794.90 (siec 101426)
• Wales Print	£228.60 (siec 101427)
• Costau Clerc	£83.99 (siec 101428)
• Cyngor Gwynedd	£216.00 (siec 101429)**

\*\* bil ychwanegol ers cyhoeddi'r agenda.

**Penderfyniad:**

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau

---

Daeth y cyfarfod i ben 20.50 y.h.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar Nos Fawrth 15 Rhagfyr 2020.**

**\*\*Bydd y rhaglen yn cau 7 Rhagfyr 2020\*\***

Dr Catrin Jones  
Clerc